

# Y Gofrestr Fasgwlaidd Genedlaethol

## Taflen Wybodaeth i Gleifion

### Pam ydych chi wedi cael y daflen hon?

Mae'r ysbyty lle cewch lawdriniaeth fasgwlaidd yn cymryd rhan mewn archwiliad clinigol cenedlaethol a sefydlir i wella gofal pobl sy'n cael y lawdriniaeth hon. Gall pobl sy'n cael llawdriniaeth fasgwlaidd nawr ddisgwyl byw yn hirach o gymharu â chael y lawdriniaeth ychydig flynyddoedd yn ôl, ac mae'r archwiliad clinigol cenedlaethol wedi helpu ysbytai i wneud y gwelliannau hyn. Mae'r daflen hon yn dweud wrthyfych am yr archwiliad clinigol cenedlaethol hwn.

### Beth yw'r Gofrestr Fasgwlaidd Genedlaethol?

Archwiliad clinigol yw'r Gofrestr Fasgwlaidd Genedlaethol y mae arbenigwyr fasgwlaidd yn ei defnyddio i fonitro eu harferion. Mae ysbytai yn anfon data i'r NVR ac mae'r NVR yn ei ddadansoddi i ddarparu gwybodaeth am safon eu gofal clinigol a chanlyniadau cleifion. Mae hyn yn caniatáu i ysbytai wybod ble maen nhw'n gwneud yn dda, yn ogystal ag amlygu meysydd y gallant eu gwella.

Mae ysbytai'r GIG yng Nghymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon yn cyfrannu at y Gofrestr Fasgwlaidd Genedlaethol. Mae'r NVR yn rhan o'r Rhaglen Archwilio Clinigol Cenedlaethol a Chanlyniadau Cleifion (NCAPOP) ac fe'i comisiynir gan y Bartneriaeth Gwella Ansawdd Gofal Iechyd (HQIP). Cymdeithas Fasgwlaidd Prydain ac Iwerddon sy'n ei gynnal ynghyd ag Uned Effeithiolrwydd Clinigol Coleg Brenhinol Llawfeddygon Lloegr.

### Pa wybodaeth a gaiff ei chasglu amdana i?

Mae'r NVR yn casglu gwybodaeth am y lawdriniaeth fasgwlaidd a gewch tra yn yr ysbyty. Dim ond gwybodaeth sy'n gysylltiedig â'ch llawdriniaeth chi a gesglir, fel difrifoldeb eich cyflwr a'r mathau o ymchwiliadau a thriniaethau a gewch. Nid yw'r NVR yn ei gwneud yn ofynnol i chi gael unrhyw apwyntiadau neu brofion clinigol ychwanegol. Nid yw'n effeithio ar y gofal a gewch ac mae'n defnyddio gwybodaeth a gesglir fel mater o drefn gan staff yr ysbyty yn unig.

O fis Gorffennaf 2020, mae'r NVR yn casglu gwybodaeth am fath o ddyfeisiau mewnblanadwy (fel grafftiad neu stent) a ddefnyddir ar gyfer trin ymlediadau aortaidd yn yr abdomen (AAA). Gwneir hyn er mwyn casglu gwybodaeth am ddyfeisiau unigol i fonitro eu perfformiad a'u diogelwch dros amser.

Ni gesglir unrhyw wybodaeth ar gyfer y Gofrestr am unrhyw ofal nad yw'n ymwneud â'ch llawdriniaeth fasgwlaidd.

Er mwyn helpu'r NVR i ddarparu darlun manwl o ofal, mae'r wybodaeth a ddarperir gan eich arbenigwr yn gysylltiedig â rhai cronfeydd data iechyd cenedlaethol eraill. Golyga hyn gadw manylion fel eich rhif GIG, eich dyddiad geni a'ch cod post er mwyn gallu cysylltu'r cronfeydd data. Fodd bynnag, ni fydd y manylion personol hyn yn cael eu rhannu gydag unrhyw un y tu allan i'r GIG.

### Sut bydd eich gwybodaeth yn cael ei chadw'n ddiogel?

Mae gan y Gofrestr fesurau diogelwch data llym i gadw'r wybodaeth a gedwir amdanoch yn gyfrinachol. Rydym yn dilyn rheolau ynglŷn â sut mae'r data'n cael ei storio mewn amgylchedd diogel a'i fod ar gael i staff priodol yn unig. Mae'r Gofrestr yn cydymffurfio â'r rheolau cyfrinachedd a sefydlwyd gan Reoliad Diogelu Data Cyffredinol 2018 (GDPR), Deddf Gwasanaeth Iechyd Gwladol 2006 a Deddf Iechyd a Deddf Gofal Cymdeithasol 2008. Mae angen eich data personol ar y Gofrestr er mwyn cyflawni tasg er budd y cyhoedd i sicrhau safonau ansawdd a diogelwch gofal iechyd uchel ac ni chaiff ei rannu gydag unrhyw un y tu allan i'r GIG.

### **Sut bydd eich gwybodaeth yn cael ei defnyddio?**

Dim ond gwybodaeth sy'n disgrifio'r gofal a dderbynnir gan grwpiau o gleifion tebyg y mae'r NVR yn ei gyhoeddi. Nid yw'n cyhoeddi gwybodaeth am unigolion, ac ni fydd eich manylion personol yn cael eu cyhoeddi. Defnyddir yr wybodaeth a gesglir gan y Gofrestr Fasgwlaidd Genedlaethol ar gyfer y canlynol:

- Llunio gwybodaeth am ansawdd y gofal a dderbynnir gan gleifion sy'n cael llawdriniaeth fasgwlaidd yn ysbytai'r GIG. Mae'r NVR yn llunio adroddiadau bob blwyddyn sy'n disgrifio a yw'r gofal a dderbynnir yn diwallu safonau cenedlaethol. Mae'r adroddiadau ar gael i'r cyhoedd, llawfeddygon fasgwlaidd, rheolwyr ysbytai a GIG Lloegr.
- Rhannu meysydd arfer da gyda holl sefydliadau'r GIG.
- Rhoi gwybodaeth i gleifion am wasanaethau fasgwlaidd mewn gwahanol ysbytai, megis nifer y llawdriniaethau a wneir bob blwyddyn, a'r cyfraddau goroesi ar ôl llawdriniaeth.
- Helpu comisiynwyr a llunwyr polisi i wneud penderfyniadau ynghylch sut y dylid trefnu llawfeddygaeth fasgwlaidd yn y GIG.

Gall yr NVR rannu data ag ymchwilwyr, archwiliadau eraill neu ddarparwyr gofal iechyd eraill er mwyn helpu i wella gofal cleifion. Fyddwn ni DDIM yn rhannu dynodwyr personol (tebyg i rif GIG, enw, cod post neu ddyddiad geni) ag unrhyw un arall oni bai bod y trefniadau cyfreithiol, moesegol a diogelwch priodol ar waith i gadw'ch manylion personol yn ddiogel. Yn achlysurol iawn, gall data personol gael ei brosesu gan drydydd parti awdurdodedig fel NHS Digital ond eto, dim ond gyda'r caniatâd rheoliadol angenrheidiol. Mae ganddynt lefelau uchel iawn o ddiogelwch a byddant yn cadw'r data hyn yn ddiogel iawn.

Mae gennym broses drylwyr o asesu teilyngdod ceisiadau am ddata a gwybodaeth ac mae'r rhain yn cael eu rheoli gan y Bartneriaeth Gwellu Ansawdd Gofal Iechyd a chaiff pob cais ei asesu gan eu Grŵp Cais am Fynediad at Data. Mae mwy o fanylion am y broses o wneud cais am ddata HQIP ar gael yn: <http://www.hqip.org.uk/nationalprogrammes/a-z-of-nca/audits-and-data-gov-uk/>.

### **Caniatâd y Claf**

Ar gyfer pobl sy'n cael llawdriniaeth ddewisol, mae angen eich caniatâd arnom i gadw gwybodaeth a all eich adnabod chi. Rhoddir ffurflen caniatâd i chi yn gofyn a ydych chi am i'r ysbyty gyflwyno'ch manylion personol ai peidio. Ni fydd p'un a ydych chi'n cydsynio ai peidio yn effeithio ar eich gofal.



Os rhowch eich caniatâd ac yna'n newid eich meddwl, anfonwch e-bost at [nvr@rcseng.ac.uk](mailto:nvr@rcseng.ac.uk) a rhowch "Cais i dynnu fy manylion yn ôl" yn y llinell pwnc. O dderbyn eich e-bost, byddwn yn tynnu eich manylion personol oddi ar system TG NVR.

Fel arall, gallwch hysbysu aelod o'ch tîm gofal lleol eich bod am optio allan. Yna byddant yn sicrhau bod eich manylion personol yn cael eu tynnu oddi ar y Gofrestr.

Oherwydd bod cleifion sy'n cael llawdriniaeth frys yn sâl iawn, mae'n anodd gofyn iddynt am eu caniatâd. Mae gan yr NVR gymeradwyaeth yr Ysgrifennydd Gwladol dros lechyd i storio a defnyddio gwybodaeth gan y cleifion hyn heb eu caniatâd, o dan Adran 251 (cyfeirnod: CAG 5-07 (f) / 2013).

Mae rhagor o wybodaeth am adran 251 ar gael yma: <http://www.hra.nhs.uk/about-the-hra/our-committees/section-251/what-is-section-251/>.

Mae'n bwysig bod gan yr NVR wybodaeth gan bob claf, nid dim ond y rhai sy'n ddigon iach i roi caniatâd, ond er mwyn rhoi darlun cywir o'r gofal fasgwlaidd y mae'r GIG yn ei ddarparu.

### **Rhagor o wybodaeth**

Os hoffech gael mwy o wybodaeth am y Gofrestr Fasgwlaidd Genedlaethol, gofynnwch i'ch tîm fasgwlaidd. Gallwch hefyd e-bostio: [www.vsqip.org.uk](http://www.vsqip.org.uk)